OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3054

# Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004

## RHAN III

## CAFFAEL A MEDDU AR DIR

*Iawndal*

### Diystyru buddiannau a gwelliannau penodol

**22.**—(1) Wrth asesu'r iawndal sy'n daladwy (os oes iawndal yn daladwy o gwbl) i unrhyw berson wrth gaffael unrhyw dir oddi arno o dan y Gorchymyn hwn, nid yw'r Tribiwnlys i ystyried—

(a) unrhyw fuddiant mewn tir; neu

(b) unrhyw gynnydd yng ngwerth unrhyw fuddiant mewn tir oherwydd unrhyw adeilad a godwyd, unrhyw weithfeydd a weithredwyd neu unrhyw welliant neu addasiad a wnaed ar dir perthnasol,

os yw'r Tribiwnlys wedi'i fodloni nad oedd creu'r buddiant, codi'r adeilad, na gwella nac addasu'r gweithfeydd yn rhesymol angenrheidiol, ac y gwnaethpwyd hynny gyda'r bwriad o gael iawndal neu o gynyddu swm yr iawndal.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "tir perthnasol" ("*relevant land*") yw'r tir a gaffaelwyd oddi wrth y person o dan sylw neu unrhyw dir arall y mae'r person hwnnw yn gysylltiedig ag ef, neu yr oedd y person hwnnw'n gysylltiedig ag ef adeg codi'r adeilad, adeg gweithredu'r gweithfeydd neu adeg gwneud y gwelliant neu'r addasiad, boed hynny'n gysylltiad uniongyrchol neu'n un anuniongyrchol.

### Diddymu neu atal hawliau tramwy preifat dros dro

**23.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir pob hawl tramwy breifat dros dir sy'n ddarostyngedig i gaffaeliad gorfodol o dan erthygl 18—

(a) o'r adeg y caffaelwyd y tir gan yr ymgymerwr, boed hynny'n orfodol neu drwy gytundeb; neu

(b) o'r adeg yr aeth yr ymgymerwr ar y tir o dan adran 11(1) o Ddeddf 1965, pa un bynnag sydd gyntaf.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw hawliau tramwy preifat dros Heol Caer Bont.

(3) Atelir pob hawl tramwy breifat dros dir y mae'r ymgymerwr yn ei feddu dros dro o dan y Gorchymyn hwn, ac ni fydd modd eu gorfodi am yr amser y bydd yr ymgymerwr yn parhau i feddu ar y tir yn gyfreithlon.

(4) Bydd unrhyw berson sy'n gweld colled oherwydd diddymu neu atal dros dro unrhyw hawl tramwy breifat o dan yr erthygl hon â'r hawl i gael iawndal sydd i'w benderfynu, os cyfyd anghydfod, o dan Ran I o Ddeddf 1961.

(5) Ni fydd yr erthygl hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw hawl tramwy y mae adran 271 neu 272 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) (diddymu hawliau ymgymerwyr statudol etc.) yn gymwys iddi.

**Terfyn amser ar gyfer arfer pwerau caffael**

**24.**—(1) Bydd y pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn i gaffael tir neu hawliau dros dir yn orfodol, a'r pŵer a roddir gan erthygl 21 i fynd ar dir a'i feddu dros dro, yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gwahardd yr ymgymerwr rhag parhau i feddu ar y tir ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, yn unol ag erthygl 21, os aethpwyd ar y tir ac os meddiannwyd y tir cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(**1**) 1990 p.8.